Rhifyn 10 Ionawr 2009

Busnes
Newyddion Busnes Môn
BUSNES YM MÔN
BUSINESS ON ANGLESEY

Angen entrepreneuriaid ar gyfer cynllun arloesol

MAE CYNLLUN i helpu creu busnesau llwyddiannus ar Ynys Môn yn chwilio am entrepreneuriaid.

Lansiwyd y cynllun, sef y Bauhaus Project, ym mis Medi. Ei nod yw cydweithio gyda busnesau sy'n bodoli eisoes neu egin syniadau nes eu bod yn barod i ddechrau masnachu neu ddenu buddsoddwyr. Cynlluniwyd y project i gynorthwyo'r entrepreneuriaid drwy'r cyfnod cynnar i brofi ac asesu cynnyrch y busnes, yn ogystal â datblygu cynnyrch. Caiff busnesau presennol nad ydynt yn cyflawni eu potensial llawn hefyd eu hystyried ar gyfer y cynllun.

Er mai Menter Môn fydd yn cyd-drefnu'r Bauhaus Project, byddant yn defnyddio arbenigwyr annibynnol a sefydliadau eraill i asesu dichonolrwydd y project ac i ddatblygu cynllun busnes. Mae pob gwaith cyn-fasnachol yn cael ei ariannu'n llawn.

Mae enw'r project yn deillio o symudiad yn y celfyddydau yn yr Almaen yn y 1920au, a oedd yn gwneud yr un math o waith drwy gymryd syniadau arloesol a'u profi i fesur diddordeb yn y farchnad.

Pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun

Eglurodd Dafydd Gruffydd, rheolwr busnes Menter Môn, eu bod yn chwilio am unigolion neu fusnesau uchelgeisiol a brwdfrydig a hoffai fwrw ymlaen gyda syniad am gynnyrch newydd ar gyfer y farchnad. Rhaid iddo fod yn gynnyrch diriaethol, yn hytrach na gwasanaeth, a dylai arwain at greu mwy o waith ar yr ynys. "Nid oes rhaid iddo fod yn gynnyrch cyntaf o'i fath yn y byd," meddai. "Efallai y gallwch ychwanegu rhywbeth at gynnyrch presennol a allai roi potensial iddo ar gyfer y farchnad.

"Rydym yn chwilio am rywbeth nad yw'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar Ynys Môn. Byddwn yn nodi'r adnoddau a'r arbenigedd, ac yn eu cyfuno i asesu'r potensial a'r ffordd ymlaen."

Cynhyrchu olewau coginio y mae Calon Lân. Fe'u ffurfiwyd mewn dull tebyg i ddull y Bauhaus Project.

Bydd y project yn mynd tan Chwefror 2011 a'r gobaith yw y bydd tua 10 busnes llwyddiannus wedi cael cymorth yn ystod y cyfnod hwn.

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â Jane Davies, swyddog project, ar 01248 725704, Dafydd Gruffydd ar 01248 725713, neu e-bostiwch janed@mentermon.com

Rhybudd o dwyll cyhoeddi

MAE'R SAFONAU MASNACH yn rhybuddio busnesau Môn i fod yn wyliadwrus o dwyll cyhoeddi.

Cafodd staff Cyngor Sir Ynys Môn alwadau ffôn yn ddiweddar gan rywun yn ceisio gwerthu hysbysebion mewn cyhoeddiadau hyrwyddo diogelwch tân iddynt. Roedd y galwyr hefyd yn honni bod y Cyngor wedi noddi'r cyhoeddiadau..

Mae'r adran Safonau Masnach yn rhybuddio bod y twyll yn un o nifer o rai tebyg yn ymwneud â hysbysebu a chyhoeddi.

Mewn rhai achosion nid yw'r cyhoeddiadau'n bodoli, neu ychydig iawn ohonynt sydd wedi'u hargraffu a'u dosbarthu ac ychydig iawn o werth ydynt i'r hysbysebwr.

Meddai llefarydd ar ran y Safonau Masnach: "Mae mwyafrif y cyhoeddwyr yn fusnesau gonest, yn darparu gwasanaeth hanfodol i ddiwydiant. Ond, gall 'cyhoeddwyr' twyllodrus ennill symiau enfawr o arian drwy annog niferoedd mawr o bobl i dalu am hysbysebion mewn cyhoeddiadau nad ydynt yn bodoli, neu sy'n hollol wahanol i'r hyn a awgrymwyd iddynt"

- Os ydych chi'n credu eich bod wedi cael eich targedu ar gyfer twyll o'r fath, cysylltwch â'r Safonau Masnach ar 01248 752840.

Yn y rhifyn hwn: Neges i Ynys Môn, Tud2 New Destination - proffil, Tud3 Tŷ Mawr, Tud3

Pam na ddylai 2009 fod yn llawn gofid a gwae

Neges ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan Sasha Davies, Pennaeth Uned Datblygu Economaidd Ynys Môn

Mae effeithiau'r cwymp economaidd yn cael eu teimlo ar Ynys Môn, fel ym mhobman arall.

Tra bod cau rhai o'r busnesau mwyaf amlwg (e.e. Eaton a Peboc) yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, gellir beio'r "wasgfa gredyd" yn gyfan gwbl am gau drysau Woolworth's yng Nghaergybi a Burgess yn Llangefni.

Yn sgil hyn, prif swyddogaeth y Cyngor yw ysgogi amrywiaeth o asiantaethau i ddarparu pa bynnag gymorth sy'n briodol ac sydd ar gael dan yr amgylchiadau. Go brin bod adnoddau lleol yn ddigonol i allu achub busnesau, felly mae'r pwyslais fel rheol ar roi cymorth i'r rhai sydd wedi colli'u gwaith i ddod o hyd i waith newydd ac/neu hyfforddiant.

Yn yr hinsawdd bresennol, mae'n hawdd colli golwg ar newyddion da yn yr economi leol. Mae'r siop Morrison's newydd yng Nghaergybi yn debygol o greu tua 250 o swyddi, a bydd Iceland yn Llangefni yn creu tua 25 swydd. Mae Parc Cybi, prif safle gyflogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, bellach ar y gweill, ac mae datblygiad unedau bychain y Cyngor ym Mhenrhos wedi ei gwblhau a'r unedau ar gael i'w rhentu.

Mae cynllun grantiau busnesau bychain y Cyngor, y Gronfa Datblygu Busnesau, yn cael ei ymestyn i gynnwys y cyfnod cyn i'r Gronfa Buddsoddi Leol (a ariennir gan Gronfeydd Cydgyfeirio'r UE) ddod yn weithredol yn ddiweddarach eleni. Mae'r rheolau'r un fath ag o'r blaen a dylai busnesau sy'n dymuno gwneud cais am grant ffonio Canolfan Busnes Môn ar 01248 752454 i gael rhagor o wybodaeth.

Un o'r projectau a ariennir gan y cronfeydd cydgyfeirio, a fydd o fantais i Fôn yw'r Gronfa Buddsoddi Leol. Bydd yn cynnwys amrywiaeth o amcanion yn ymwneud ag entrepreneuriaeth, rhwydwaith mewnol, twristiaeth, treftadaeth a datblygu gwledig. Mae'r Project Gweithredu Arfordirol eisoes wedi ei gymeradwyo gan WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru). Bydd y project hwn yn darparu gwelliannau cynaliadwy i rwydwaith hamdden yr Ynys. Bydd project cydgyfeirio sylweddol hefyd yn cynnwys darparu safleoedd ac adeiladau newydd at ddibenion busnes.

Mae'r Cyngor newydd gyhoeddi pamffled twristiaeth Môn 2009, sydd wedi cael croeso mawr gan weithredwyr twristiaeth lleol yn ogystal â'n cydweithwyr yn Croeso Cymru. Bydd 2009 yn flwyddyn bwysig i ymgyrch twristiaeth Môn, gyda phedwar o gwmnïau mordeithio, er enghraifft, yn blasu'r hyn sydd gan Fôn i'w cynnig.

Dymuna'r Uned Datblygu Economaidd 2009 hapus a llewyrchus i holl aelodau Busnes Môn.

Sasha Davies, Pennaeth yr Uned Datblygu Economaidd

Sylwadau

Mae'n ymddangos bod yr arafu wedi troi'n rhywbeth mwy pendant ers y Nadolig. Mae'r hyn oedd yn ymddangos yn broblem yn y sector ariannol yn awr i'w deimlo ym mhobman.

Ond a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i gadw'r wasgfa gredyd draw? Mae llif arian yn gwbl hanfodol, felly un peth a allai ein helpu yw talu biliau'n brydlon os oes modd i ni wneud hynny.

Mae'n debyg ein bod i gyd yn euog o ddisgwyl am ein biliau coch cyn talu weithiau.

Efallai bod angen i ni roi ystyriaeth bellach i ganlyniadau hyn. Os byddwn ni'n gwneud i'n cyflenwyr ddisgwyl am eu harian, bydd rhaid iddynt hwythau gadw'u cwsmeriaid i ddisgwyl…. ac mae bron yn sicr y bydd yr olwyn yn troi a ni fydd yn gorfod disgwyl yn y pen draw.

Mae llawer ohonom eisoes yn dioddef oherwydd hyn, ac mae hyn, wrth reswm, yn ei gwneud yn anodd i ni dalu ein biliau.

Ond os gallwch chi, peidiwch â chadw pobl i ddisgwyl.

Wendy Ashurst

Cadeirydd Busnes Môn

Tudalen 2

Peidiwch ag anghofio am eich ffurflen dreth!

31 IONAWR 2009 yw dyddiad cau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi ar gyfer llenwi ffurflenni treth hunanasesu ar-lein. Os na fyddwch wedi llenwi ffurflen erbyn y diwrnod hwnnw, byddwch yn cael cosb o £100.

31 Hydref oedd y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni papur. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.hmrc.gov.uk

Proffil aelodau

Sharon Lindsay — New Destination

Sharon Lindsay – yn mwynhau dawnsio'r jeif fodern

Ym mha flwyddyn y gwnaethoch chi ddechrau eich busnes, a pham?

Astudiais i fod yn hyfforddwr bywyd ddwy flynedd yn ôl, yn wreiddiol ar gyfer fy natblygiad personol. Wedi i mi lwyddo gyda rhagoriaeth uchel yn yr arholiad ac ennill achrediad llawn, fe sylweddolais yr hoffwn hefyd helpu eraill. Lansiwyd New Destination yn 2007.

Disgrifiwch eich busnes

Rwy'n cynnig atebion, opsiynau a dewisiadau i helpu unigolion i newid eu bywydau. Rwy'n dangos i bobl sut i feddwl a byw ar lefel wahanol, fel eu bod yn gallu trawsnewid agweddau penodol ar eu bywydau.

Rwyf hefyd yn darparu cwrs unigryw mewn Cynllunio Busnes Llwyddiannus. Ei nod yn syml yw helpu busnesau i symud ymlaen drwy gydol 2009, drwy gyflwyno syniadau newydd, cynllunio strategol ac ysgogiad.

Beth ddylai Aelodau Busnes Môn ddweud wrth gyfeirio atoch?

Gall y bobl sy'n fy adnabod gyfeirio ataf gyda hyder ac ymddiriedaeth. Mae fy ngwasanaeth yn gyfrinachol ac rwyf hefyd yn cynnig gwarant ad-dalu, os na fydd fy nghleientiaid yn fodlon gyda'm sesiynau hyfforddi.

Pwy yw eich cleient delfrydol

Unigolyn neu berchennog busnes uchelgeisiol sydd â meddwl agored, ac sy'n barod i dderbyn cysyniadau craff a gwneud newidiadau personol.

Sut fyddech chi'n perswadio rhywun i ymuno â Busnes Môn?

Byddwn yn croesawu'n bersonol unrhyw berchennog busnes lleol i ymuno â'r rhwydwaith llwyddiannus hwn er mwyn cynhyrchu mwy o incwm, cynyddu trosiant a phroffidioldeb, ac i sefydlu cysylltiadau proffesiynol.

Beth yw eich cyngor busnes gorau?

Atgyfnerthu'n gyson eich ffydd yn eich gallu i lwyddo, a bod yn greadigol a hyblyg bob amser mewn cyfnodau a sefyllfaoedd anodd.

Beth fyddwch yn ei wneud pan na fyddwch yn gweithio?

Dair blynedd yn ôl fe ddysgais ddawnsio'r "jeif fodern" ac rwyf wrth fy modd! Rwyf yn awr yn mynychu gwersi rheolaidd, Saturday Freestyles drwy ogledd Cymru a'r gogledd orllewin. Rwyf hefyd yn cymryd rhan mewn penwythnosau dawnsio deirgwaith y flwyddyn ac rwyf wedi bod ar fordaith ddawnsio o amgylch yr Ynysoedd Dedwydd yn gynharach eleni. Roedd yn werth chweil!

Pe byddai modd i chi newid un peth am Fôn, beth fyddai hynny?

Byddwn wrth fy modd gweld Ynys Môn yn cyflwyno rhywfaint o adloniant gyda'r nos difyr ac o ansawdd, e.e. y theatr, y sinema, bowlio deg a digwyddiadau dawnsio rheolaidd. Byddai hyn nid yn unig yn gwella bywydau pobl lleol, ond byddai hefyd yn denu pobl o ardaloedd cyfagos. Yn bwysicach na hynny, byddai'n denu twristiaid drwy'r flwyddyn, yn creu mwy o swyddi angenrheidiol ac yn rhoi hwb i economi'r ynys. Mae Ynys Môn yn llawn potensial.

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Fy nod yw gwella ansawdd bywyd cymaint â phosib o bobl yng ngogledd Cymru a dangos ffyrdd newydd o lwyddo i berchnogion busnesau .

Yn olaf, ychydig amdanoch chi...

Hon fydd fy 12fed blwyddyn ar yr ynys brydferth hon. Rwy'n byw ym Moelfre gyda Laura, fy merch a Sophie, fy nghi, sy'n werth y byd. Mae fy nheulu hefyd yn byw ar yr ynys.

Bûm yn gweithio i Pentraeth Automotive rhwng 2000 a 2004.

Dyddiad allweddol ar gyfer datblygiad Tŷ Mawr

MAE'N edrych yn debygol y bydd y cyfarfod llawn o gyngor Ynys Môn ar 30 Ionawr yn pennu tynged project Tŷ Mawr.

Cafodd y project ei wrthod o ganlyniad i benderfyniad dadleuol cyn y Nadolig, er bod yr anawsterau ynghylch mynediad a thagfeydd posib wedi eu datrys, yn ôl pob tebyg.

Oherwydd bod y cais cynllunio wedi ei wrthod, er gwaethaf argymhelliad swyddogion i'w gymeradwyo, ceir cyfnod o ystyried cyn i gynghorwyr gael cyfle arall i bleidleisio. Gallant wrthdroi eu penderfyniad a chymeradwyo'r project, neu ei wrthod eilwaith.

Tŷ Mawr: A fydd yn cael ei wireddu, neu a fydd yn aros fel argraff arlunydd yn unig?

Tudalen 3

Digwyddiadau i ddod

Digwyddiadau Busnes Môn

Rhwydweithio Gyda'r Nos

29 Ionawr 2009 yn Stafford House ym Mhorthaethwy. Bydd y digwyddiad hwn yn cynnwys pryd 3 chwrs. Cyrraedd 6.30pm ar gyfer 7pm. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael felly mae archebu lle yn hanfodol.

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch events@businessonanglesey.co.uk neu gadewch neges i Jo Quinney ar 01248 715611

Rhwydweithio gyda'r nos

24 Chwefror 2009 yng Ngwesty'r Bull, Llangefni, i ddechrau am 6pm. Manylion cyswllt fel o'r blaen.

Digwyddiadau eraill

Datblygu ac Atgyfnerthu eich Brand All-lein yn ogystal ag Ar-lein

5 Chwefror 2009, 3pm - 5pm, TECHNIQUEST@NEWI, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW.

Cyflwyniad rhad ac am ddim i helpu busnesau ddatblygu eu brandiau, ynghyd â deunyddiau marchnata all-lein ac ar-lein, gyda phwyslais ar y cyfryngau newydd.

Cysylltwch â Victoria Jones drwy ffonio 0845 3031400 neu e-bostio vjones@designwales.org.uk

Rhwydweithio Busnes i Fusnes dros Ginio

Trefnir gan y Siambr Fasnach, 18 Chwefror, 12.30pm - 2pm yn y Ganolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor. Yn cynnwys cinio. Y gost fydd £20 i aelodau, £22 i rai nad ydynt yn aelodau, + TAW. 40 o leoedd yn unig sydd ar gael. I archebu lle ffoniwch 01244 669988.

Oes gennych chi unrhyw newyddion? Cysylltwch â ni!

Yn newyddion da neu newyddion drwg, hoffwn glywed gennych!

Efallai bod gennych farn gref am faterion lleol neu genedlaethol. Efallai eich bod wedi darllen rhywbeth yn y papurau newydd lleol neu yn y rhai cenedlaethol. Neu efallai bod gennych newyddion am eich busnes eich hun. Wedi ennill contract newydd? Yn cyflogi mwy o staff? Yn lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd! Hoffwn gael gwybod!

Anfonwch e-bost byr at:

phil.thomas@wordcreative.co.uk,

i amlinellu'ch newyddion a'ch syniadau, ynghyd â'ch rhif ffôn.

Ynglŷn â Busnes Môn

Busnes Môn yw prif rwydwaith annibynnol yr ynys ar gyfer busnesau lleol. Hwn yw'r corff sy'n cynrychioli busnesau annibynnol o bob maint a sector ym Môn. Grŵp rhwydweithio llwyddiannus sy'n uno busnesau drwy Ogledd Cymru.

Yn darparu gwybodaeth i fusnesau am ddigwyddiadau a chyrsiau ar Ynys Môn a Gogledd Cymru.

- Grŵp busnes sy'n dylanwadu ar economi Môn. Os hoffech fod yn aelod, e-bostiwch Jo Quinney at events@businessonanglesey.co.uk

BUSNES YM MÔN
BUSINESS ON ANGLESEY

Cynhyrchwyd y Newyddlen gan Wordcreative

www.wordcreative.co.uk

Mae pob gofal wedi ei gymryd wrth lunio'r cyhoeddiad hwn, ac ni fydd Busnes Môn yn gyfrifol am gamgymeriadau neu esgeulustod. Nid yw'r deunydd sy'n ymddangos yn yr erthyglau o anghenraid yn cynrychioli barn Busnes Môn. Nid yw Busnes Môn yn gwarantu nac yn ardystio cynnyrch neu wasanaethau y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad ac ni fydd Busnes Môn yn atebol am gynnyrch neu wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cyhoeddiad.

Mae Busnes ym Môn ar hyn o bryd, neu yn y gorffennol, wedi cael arian rhannol gan y sefydliadau canlynol.